



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyflwyniad i'r Ymgyrch a Phecyn Adnoddau

Ymgyrch Atal Digartrefedd Ieuenctid

Shelter
Cymru

Cynnwys

Nod yr ymgyrch - Tudalen 3

Beth yw digartrefedd cudd? - Tudalen 4

Adnabod arwyddion digartrefedd cudd - Tudalen 5

Adnoddau'r Ymgyrch - Tudalen 7

Nod yr ymgyrch

Nod yr ymgyrch yw codi ymwybyddiaeth o ddigartrefedd cudd ymhlith pobl ifanc (16-25 mlwydd oed) yng Nghymru er mwyn ei atal rhag digwydd.

Byddwn yn gwneud hyn trwy roi gwybod i bobl ifanc, a'r rhai o'u cwmpas, sut i adnabod arwyddion digartrefedd cudd a lle i gael help.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Shelter Cymru i gynnig cyngor a chymorth i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddioddef digartrefedd cudd neu sy'n ei ddioddef ar hyn o bryd.

Beth yw digartrefedd cudd?

Y llynedd, daeth mwy na 3,000 o bobl ifanc yng Nghymru yn ddigartref a bu'n rhaid iddynt ddefnyddio gwasanaethau digartrefedd cynghorau, a daeth nifer anhysbys yn ddigartref ar sail 'gudd', gan gysgu ar soffas a lloriau ffrindiau. Gelwir hyn yn ddigartrefedd cudd, sy'n anodd ei nodi, ond gall bod yn ymwybodol o'r arwyddion helpu.

Gall bod yn ddigartref fod yn brofiad dychrynlyd, un a all barhau i'ch effeithio drwy gydol eich oes. Gall cysgu ar wahanol sofffa neu lawr bob nos neu aros mewn llety dros dro fod yn llafurus. Gall effeithio ar eich gallu i gael cyflogaeth, aros yn yr ysgol a chynnal sefydlogrwydd cyffredinol mewn bywyd. Gall natur gythryblus digartrefedd cudd gael effeithiau dinistriol ar fywyd personol rhywun yn aml, fel problemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad troseddol.

Gallai digartrefedd cudd fod yn digwydd i rywun sy'n agos atoch heb i chi fod yn gwybod hyd yn oed. Rydym wedi cynnwys rhywfaint o wybodaeth am sut i adnabod arwyddion digartrefedd cudd yn ogystal â deunyddiau i'w defnyddio yn eich sefydliad (a'u rhannu gyda'ch staff a'ch timau) i godi ymwybyddiaeth o'r mater a grymuso pobl ifanc a allai fod wedi eu heffeithio i gael cymorth, ac i'r rhai o'u cwmpas ddeall sut i'w helpu.

Adnabod arwyddion digartrefedd cudd

Nid yw digartrefedd bob amser yn byw ar y stryd a gall unrhyw un gael ei effeithio. Gallwch helpu'r rhai sydd mewn perygl trwy adnabod yr arwyddion. Gallai hyn fod yn digwydd ar hyn o bryd i rywun yr ydych chi'n ei adnabod:

Syrffio Soffas: Mae llawer o bobl ifanc yn aros gyda ffrindiau neu gydnabod gan nad oes ganddynt unrhyw le arall i fyw, y gellir ei ddisgrifio'n aml fel 'syrffio soffas'. Er nad ydynt yn cysgu ar y strydoedd, ystyrir bod hyn yn gyfystyr a bod yn ddigartref beth bynnag.

Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan Crisis UK yn dangos bod cynnydd o 53% i nifer y syrffwyr soffas yn y DU. Diffinnir syrffwyr soffas fel 'pobl sy'n aros dros dro ar aelwydydd nad ydynt yn deulu uniongyrchol o dan amodau gorlawn.'

Perthynas yn chwalu: Gallai hyn amrywio o drafferthion teuluol, i gwpl yn gwahanu. Yn aml, gall hyn fod yn sbardun sydyn iawn i rywun a'u rhoi mewn perygl o ddod yn ddigartref a gall gyfateb â thrais yn aml.

Iechyd: Gall problemau gydag iechyd meddwl a chorfforol wneud rhywun yn agored i ddigartrefedd.

Cyllid: Gall problemau ariannol fod yn un o'r arwyddion cyntaf bod rhywun mewn trafferthion. A ydych chi'n adnabod rhywun sydd efallai â chyflogaeth ansefydlog, neu sy'n cael trafferth yn cadw i fyny â thaliadau rhent? Gallai hyn fod yn fwy anodd sylwi arno, fel peidio â chymdeithasu cymaint i arbed arian, neu'n gorfod ceisio benthyg arian drwy'r amser.

Profedigaeth deuluol: Gall golli anwylyd wneud rhywun yn agored i ddigartrefedd

Aros yn hwyr: Yn y gwaith, mewn caffi, yn y coleg, hyd yn oed cysgu ar drafnidiaeth gyhoeddus heb byth gyrraedd eu harosfan... efallai nad oes ganddyn nhw unman i fynd.

Cam-fanteisio: Mae pobl ifanc sy'n dioddef digartrefedd cudd mewn perygl o gam-fanteisio gan eraill. Efallai y bydd pwysau'n cael eu rhoi arnynt i dderbyn trefniant rhyw am rent yn gyfnewid am le i aros.

Adnoddau’r ymgyrch

Mae’r pecyn hwn yn cynnwys adnoddau digidol yr ymgyrch sydd ar gael i’w lawrlwytho ac sydd wedi eu fformatio yn briodol i’w hargraffu pan fydd yn hwylus i chi.

Sianel	Gweithgaredd
Posterï	Dyluniwyd posterï A4 i chi eu rhoi ar hysbysfyrddau, mewn ffenestri, neu yn unrhyw le y mae gan bobl amser i gymryd sylw. Mae’r poster hwn yn codi ymwybyddiaeth o ddigartrefedd a’r cymorth sydd ar gael i’r rhai mewn perygl.
Posterï Bol Gwag	Addasiad o’r posterï yw’r rhain, lle mae gofod gwag ar gael i gynnwys cyfarfodydd grŵp cymorth lleol (lleoliad, amser a dyddiad), neu i ddynodi gwasanaethau penodol neu wedi’u teilwra y mae eich busnes neu sefydliad yn eu cynnig. Ceir lle hefyd i gynnwys cyfrinair Wi-Fi os oes un ar gael, gan fod unigolion mewn perygl yn chwilio am Wi-Fi am ddim. Fel cymorth ychwanegol, nodir cod QR ar gyfer lawrlwytho App Shelter Cymru sydd ar gael i’w ddefnyddio oddi ar-lein ar ôl ei lawrlwytho.
Hysbyseb Sgriniau Digidol	Fersiwn tirlun o’n posterï i’w defnyddio ar sgriniau digidol pan fyddant ar gael.
Taflen Hysbysebu A5 (fersiynau cyffredinol a chyflogwr)	Taflen wybodaeth i’w rhannu sy’n cynnwys gwybodaeth benodol am arwyddion ac achosion digartrefedd cudd, ei ystyr, a pha gymorth sydd ar gael.
Cyfryngau Cymdeithasol	Rydym wedi darparu 5 neges cyfryngau cymdeithasol, ôl-gopi a chreadigol, i chi eu rhannu ar dudalennau cymdeithasol eich sefydliad. Cofiwch ddefnyddio hashnod yr ymgyrch #DigartrefeddCudd.

Sianel	Gweithgaredd
Digidol	Dilynwch ni! Os hoffech gael y newyddion diweddaraf am yr ymgyrch a dysgu mwy am ddigartrefedd cudd ac adnabod yr arwyddion, gallwch ddilyn Shelter Cymru ar Facebook, Instagram a Twitter, a chwilio am yr hashnod #DigartrefeddCudd. Mae ein tudalen ymgyrch hefyd yn weithredol ar gyfer rhagor o wybodaeth: sheltercymru.org.uk/cy/digartrefeddcudd.
Ffilmiau	Rydym wedi darparu fersiynau MP4 o'n ffilmiau Astudiaeth Achos ac Arwr, i'w rhannu gyda chydweithwyr, ar gyfryngau cymdeithasol, yn yr ystafell ddosbarth, ar eich sgriniau digidol - unrhyw le sy'n caniatáu i ni rannu straeon go iawn a realiti digartrefedd cudd.
Baner Rholio	Cyflenwyd gwaith celf ar gyfer baner rholer maint safonol, felly gallwch ei hargraffu a'i harddangos fel sy'n briodol.

Posterï



NID YW POBL DDIGARTREF WASTAD YN BYW AR Y STRYD.

Os ydych chi, neu rywun yr ydych chi'n ei adnabod, mewn perygl o wynebu digartrefedd cudd neu'n ei wynebu'n barod, cysylltwch â Shelter Cymru:

sheltercymru.org.uk/
cy/digartrefeddcudd
08000 495 495

Nid yw hi byth yn rhy hwyr nac yn rhy gynnar i gael help.
#DigartrefeddCudd

HOMELESSNESS DOESN'T ALWAYS LIVE ON THE STREETS.

If you, or someone you know, is at risk of or is experiencing hidden homelessness, contact Shelter Cymru:

sheltercymru.org.uk/
hiddenhomelessness
08000 495 495

It's never too late or too early to get help.
#HiddenHomelessness



NID YW POBL DDIGARTREF WASTAD YN BYW AR Y STRYD.

Os ydych chi, neu rywun yr ydych chi'n ei adnabod, mewn perygl o wynebu digartrefedd cudd neu'n ei wynebu'n barod, cysylltwch â Shelter Cymru:

sheltercymru.org.uk/
cy/digartrefeddcudd
08000 495 495

Nid yw hi byth yn rhy hwyr nac yn rhy gynnar i gael help.
#DigartrefeddCudd

HOMELESSNESS DOESN'T ALWAYS LIVE ON THE STREETS.

If you, or someone you know, is at risk of or is experiencing hidden homelessness, contact Shelter Cymru:

sheltercymru.org.uk/
hiddenhomelessness
08000 495 495

It's never too late or too early to get help.
#HiddenHomelessness

Posterï Bol Gwag



NID YW POBL DDIGARTREF WASTAD YN BYW AR Y STRYD.

Os ydych chi, neu rywun yr ydych chi'n ei adnabod, mewn perygl o wynebu digartrefedd cudd neu'n ei wynebu'n barod, cysylltwch â Shelter Cymru:

sheltercymru.org.uk/
cy/digartrefeddcudd
08000 495 495

Nid yw hi byth yn rhy hwyr nac yn rhy gynnar i gael help.
#DigartrefeddCudd

HOMELESSNESS DOESN'T ALWAYS LIVE ON THE STREETS.

If you, or someone you know, is at risk of or is experiencing hidden homelessness, contact Shelter Cymru:

sheltercymru.org.uk/
hiddenhomelessness
08000 495 495

It's never too late or too early to get help.
#HiddenHomelessness

Am gymorth yn eich ardal leol:

Lleoliad:

Amser:

Dyddiad:

Find support in your area:

Location:

Time:

Date:

Hysbyseb Sgriniau Digidol

NID YW POBL DDIGARTREF
WASTAD YN BYW AR Y STRYD.



Nid yw hi byth yn rhy hwy nac
yn rhy gynnar i gael help.

It's never too late
or too early to get help.

Os ydych chi, neu rywun yr ydych chi'n ei
adnabod, mewn perygl o wynebu digartrefedd
cudd neu'n ei wynebu'n barod, cysylltwch â
Shelter Cymru:

If you, or someone you know, is at risk of or is
experiencing hidden homelessness, contact
Shelter Cymru:

sheltercymru.org.uk/cy/digartrefeddcudd
sheltercymru.org.uk/hiddenhomelessness

08000 495 495

#DigartrefeddCudd
#HiddenHomelessness

HOMELESSNESS DOESN'T ALWAYS
LIVE ON THE STREETS.



**NID YW POBL DDIGARTREF
WASTAD YN BYW AR Y STRYD.**

**HOMELESSNESS DOESN'T ALWAYS
LIVE ON THE STREETS.**



**Shelter Cymru
Welsh Government**

**Nid yw hi byth yn gael hwyr nac
yn rhy gynnar i gael help.**

**It's never too late
or too early to get help.**

Os ydych chi, neu rywun yr ydych chi'n ei
adnabod, mewn perygl o wynebu digartrefedd
cudd neu'n ei wynebu'n barod, cysylltwch â
Shelter Cymru:

If you, or someone you know, is at risk of or is
experiencing hidden homelessness, contact
Shelter Cymru:

sheltercymru.org.uk/cy/digartrefeddcudd
sheltercymru.org.uk/hiddenhomelessness

08000 495 495

#DigartrefeddCudd
#HiddenHomelessness

Shelter
Cymru

Taflen Hysbysebu A5 – Cyflogwyr

**Unwelsh Card
Welsh Insurance**

**Unwelsh Card
Welsh Insurance**

Nid oes yn rhaid i chi fod yn cysgu ar y stryd i fod yn ddigartref, ffaithall y bydd gennych awydd am ein dal i fod mewn perygl.

Fel cyffwrdd, mae'n bwyys gwyddu am eich cydwethwyr a'ch cyffwrdd.

Ellais y bydd yn golgu cyngu ar soffas ffrindau neu deulu noson ar ôl noson, ans yn rhywle drws ddi, ffrindod, bwrdd neu sefydliad gelyr a bwrdd, bwrdd mewn amodau gwell sef neu rhywle nad yw'n addio ar gylch unigolyn neu deulu.

Nid yw'n priddingdall fel pe bai llawer o bobl ffrindod ydyd yn y sefydliad hyn yn ddigartref mewn gwestionod, nad maent yn ddisodl y hyn a elwir yn "ddigartrefod oud". Ellais bod digartrefod ydyd, ond y bydd yn ffrindod gellu problemau ariannol, neu problemau gdrôl i bawd neu bwrdd i fod yn ddisodl, neu sefydliad hyn yn araf.

Gallwch helpu cydwethwyr neu gffwrdd ydyd mewn perygl trwy achabod y awyddion a'i ariannol i ofyn am gymorth.

Nid yw bydd yn rhy hysg nac yn rhy gymmar i gael help.

0800 495 495
sheltercymru.org.uk/cy/ddigartrefodoud

Shelter

You don't have to be sleeping on the streets to be homeless, you can even still have a job and be at risk.

As an employee, it's important to look out for your colleagues and employees.

It might be sleeping on the sofas of friends or family night after night, staying somewhere temporarily like a hotel, night shelter, bed & breakfast or living in very poor conditions or somewhere that's not suitable for an individual or a family.

Many young people in these situations don't seem as though they're homeless but are actually experiencing what's known as "hidden homelessness". They might be holding down a job, but behind the scenes financial problems, or issues with their family or partner could slowly be destroying their housing situation.

You can help a colleague or employee at risk by first recognising the signs and then encouraging them to reach out.

It's never too late or too early to get help.

0800 495 495
sheltercymru.org.uk/hiddenhomelessness

Shelter

Taflen Hysbysebu A5 - Cyffredinol



NID YW POBL DDIGARTREF WASTAD YN BYW AR Y STRYD.

#DigartrefeddCudd

Shelter Cymru

Does dim rhaid i chi fod yn cysgu ar y stryd i fod yn ddigartref.

Gallwch chi fod yn cysgu ar sofffa ffrind neu seled o'r teulu noson ar ôl noson, yn aros yn rhywle dros dro fel hostel, lleches nos neu wely a brecwast, neu'n byw mewn amodau gwael iawn neu rywle nad yw'n addas ar gyfer unigolyn na theulu.

Nid yw lawer o'r bobl ifanc hyn yn sylweddoli eu bod nhw'n ddigartref a'u bod nhw mewn gairionedd yn wynabw'r hyn a gellir ei alw'n 'ddigartrefedd cudd'. Y llynedd, cwestiwn mwy na 3,000 o bobl ifanc Cymru yn ddigartref a oedd yn gorddi deffysdd gwasanaethu'r cymhorol ar gyfer pobl ddigartref, tra bod lawer o'r nifer hyn yn cysgu ar sofffa a foriau ffrindiau. Mae hyn yn cael ei alw'n ddigartrefedd cudd, ac mae'n arodd sylw am.

Rydym ni eisiau i bobl wybod beth yw anyddion ddigartrefedd cudd, bodd hynny'n golygu eich bod chi'n eu hadnabod nhw ynnoch chi eich hun, neu'n sylw amynt, yn rheddi eidd fel eich bod chi'n gallu eu hennog nhw i gael cymorth.

Mae Shelter Cymru yma i'ch helpu chi. Dyddi hi byth yn rhy hwyr nac yn rhy gynnar i gael cymorth.

☎ 08000 495495

🌐 sheltercymru.org.uk/cy/ddigartrefeddCudd/

Lawrhytho ein Ap Cymorth Tai rhad ac am ddim i'w ddefnyddio pan nad oes gennych chi Wi-Fi

Gwybod beth yw'r arwyddion:

Cysgu ar Soffa

Mae lawer o bobl ifanc yn aros gyda ffrindiau, seledau'r teulu neu bod yn mient yn eu hadnabod gan nad oes ganddyn nhw unrhyw le arall i fynd, sy'n aml yn cael ei ddigartref fel 'bystio adda'.

Parthynas yn cihwlu

Gall hyn arwngyrru o ddefnyddio teulod i berthynas oddi yn chwelu. Mae'r problemau hyn yn ymwneud â pharthynas yn gallu bod yn aherddu sydyn i rywun bod mewn perigl o fod yn ddigartref ac mae'n gallu cyd-fynd â theulu.

Ischylt

Mae problemau ischylt meddwl a chorfforol yn gallu gwneud rhywun yn agored i ddigartrefedd.

Arian

Mae bod i ffurfiostron arian yn gallu bod yn un o'r arwyddion cyntaf bod rhywun mewn trafferth.

Proffesiadaeth yn y teulu

Gall hwn helpu i wneud person yn agored i ddigartrefedd.

Aros yn hwyr

Yn y gwaith, mewn caffi, yn yr ysgol, yn y cefn, yn y brwydro, a lleuad nad oes gan rywun sy'n ymddangos nad yw byth yn mynd adref rywle i fynd iddo.

Cam-fanteisio

Mae pobl ifanc sy'n wynabw ddigartrefedd cudd mewn perigl o gael eu cam-fanteisio gan eidd. Eiddau i'w bod yn rhwng eiddau aml ddiwybau i gael rhyw yn gyfrwng am le i aros.




HOMELESSNESS DOESN'T ALWAYS LIVE ON THE STREETS.

#HiddenHomelessness

Shelter Cymru

You don't have to be sleeping on the streets to be homeless.

It might be sleeping on the sofa of friends or family night after night, staying somewhere temporarily like a hostel, night shelter or bed & breakfast, or living in very poor conditions that are not suitable for an individual or a family.

Many young people in these situations don't realise that they are homeless and are actually experiencing what's known as 'hidden homelessness' which is hard to spot. Last year more than 3,000 young people in Wales became homeless and had to use council homelessness services, while an unknown number were sleeping on sofas and friends' floors.

We want people to know the signs of hidden homelessness, whether that's recognising them in yourself, or spotting them in others so that you can encourage them to reach out for support.

Spot the signs:

Sofa Surfing

Many young people stay with friends, family members or acquaintances because they don't have anywhere else to live, which can often be described as 'sofa surfing'.

Relationship breakdown

This can often be a very sudden trigger for someone and makes them at risk of becoming homeless. This can often correspond with violence.

Health

Issues with mental and physical health can make someone vulnerable to homelessness.

Finances

Struggling with finances can be one of the first signs that someone is in trouble.

Family bereavement

Can make a person vulnerable to homelessness.

Staying late

At work, at a cafe, at school, at college at university... someone who seems to never go home may have nowhere to go.

Exploitation

Young people experiencing hidden homelessness are at risk of being exploited by others. They might be pressured into a sex for rent arrangement in exchange for a place to stay.

Shelter Cymru are here to help you.

It's never too late or too early to get help.

☎ 08000 495495

🌐 sheltercymru.org.uk/hiddenhomelessness/

Download our free Housing Help App that you can use when you don't have Wi-Fi



Baner Rholio

**MAE SIÂN YMA Y RHAN
FWYAF O NOSWEITHIAU.**



SIÂN IS HERE MOST NIGHTS.

**NID YW POBL DDIGARTREF WASTAD
YN BYW AR Y STRYD.**

**HOMELESSNESS DOESN'T ALWAYS
LIVE ON THE STREETS.**

Os ydych chi, neu rywun yr ydych chi'n ei adnabod,
mewn perygl o wynsbu digartrefedd cuddid neu'n ei
wynsbu'n barod, cysylltwch â Shelter Cymru.

If you, or someone you know, is at risk of or is experiencing
hidden homelessness, contact Shelter Cymru:

sheltercymru.org.uk/cy/digartrefeddcudd
sheltercymru.org.uk/hiddenhomelessness

08000 495 495

Nid yw hi byth yn rhy hwyr nac
yn rhy gynnar i gael help.

It's never too late
or too early to get help.

#DigartrefeddCudd
#HiddenHomelessness

Shelter
Cymru

Postiau Cyfryngau Cymdeithasol





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAW CYFRYNGAU CYMDEITHASOL YMGYRCH DIGARTREFEDD YMHLITH POBL IFANC.

DIGARTREFEDD IEUENCTID LLEOLIAD LOGO

Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg wedi eu darparu ar ffurf JPEG ar gyfer pob neges ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae angen i logo eich brand chi gael ei roi nesaf at logo Shelter Cymru yn y cornel dde ar y gwaelod. Sicrhewch nad yw'n amharu ar logo Shelter Cymru na Llywodraeth Cymru mewn unrhyw ffordd. Peidiwch â symud y logos hyn.


Gadewch ychydig o le rhwng eich logo chi a logo Shelter Cymru (gweler yr enghraifft isod).



DIGARTREFEDD IEUENCTID

NEGESEUON AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Mae'r negeseuon isod ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol wedi eu darparu i chi eu defnyddio ar wefannau cymdeithasol:



Ffilmiau





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Diolch i chi am eich cymorth i
godi ymwybyddiaeth o
ddigartrefedd cudd a sicrhau
bod y rhai sydd angen cymorth
yn ei gael.

Teimlwch yn rhydd i rannu'r pecyn
cymorth gyda rhanddeiliaid perthnasol

Nid yw byth hi yn rhy hwyr nac yn rhy gynnar i gael help.

#DigartrefeddCudd